

Nodiadau Athrawon

Gwefan Astudio 'Crash'

Gellir defnyddio'r adnodd hwn yn annibynnol, mewn parau neu mewn grwpiau. Mae'n cynnig crynodeb ac astudiaeth o ddrama Crash gan Sera Moore Williams, yn ogystal â chyflwyno pynciau trafod am themâu, cymeriadau a symbolau'r ddrama. Mae'r adran Mynegi Barn i gynorthwyo disgyblion i ffurfio eu barn eu hunain ac i ddatblygu hyder wrth drafod y pwnc.

Dyma ambell awgrym am ffyrdd i ddefnyddio'r adnodd.

- Gosodwch ddarllen am un thema neu symbol fel gwaith cartref, a threulio'r wers ganlynol yn trafod y pwnc. Er enghraifft, gellid defnyddio'r rhan o'r adnodd y thema o grash fel sail ar gyfer trafodaeth. Dylid annog y disgyblion i ystyried y canlynol:-
 - Beth yw'r gwahanol ystyron sy'n cael eu rhoi i'r ddelwedd o grash yn y ddrama?
 - Ydych chi'n meddwl fod y thema 'crash' yn un effeithiol, a pham?

- Gosodwch dasg dosbarth i drafod un o'r cymeriadau. Er enghraifft, gellid defnyddio'r rhan am Rhys. Gallwch annog y

disgyblion i drafod:-

- Ydych chi'n hoffi cymeriad Rhys?
 - Beth mae'r ffordd mae Rhys yn siarad yn dweud am ei gymeriad?
 - Sut mae Rhys yn teimlo am y cymeriadau eraill?
- Mae nifer o gwestiynau yn cael eu gosod yn Rhan 6 (Mynegi Barn).
Gosodwch dasg dosbarth i drafod un o'r cwestiynau, **e.e.**

Mae Crash yn bortread teg o'r cymhlethdodau sydd ym mywydau pobl ifanc. Ydych chi'n cytuno gyda hyn?

Gallwch atgoffa'r disgyblion i drafod y canlynol:-

- Beth yw'r cymhlethdodau ym mywydau'r cymeriadau?
- A oes rhai o'r themâu yn berthnasol i fywydau pobl ifanc?
- Ydych chi'n meddwl mai problemau pobl ifanc yn unig yw'r rhain?

- Gosodwch dasg i drafod yr elfen synoptig. Gallwch drafod:-

- Themau sy'n gyffredin rhwng y ddrama a straeon a cherddi eraill a drafodwyd yn y dosbarth.
- Oes cymeriadau yn y ddrama sy'n eich atgoffa o gymeriadau o bethau eraill yr ydych wedi eu darllen neu eu gweld?
- Oes rhai or themâu, symbolau neu gymeriadau yn eich atgoffa o ddramau, straeon neu gerddi eraill?

Wrth lywio trafodaethau dosbarth, gallwch annog y disgyblion i ddechrau brawddegau fel hyn:-

"Dylai..."

"Gallwn..."

"Roeddwn..."

"Rydw i'n meddwl..."

"Byddwn i'n hoffi..."

"Yn fy marn i..."

"Yn bersonol..."

Mae'n bwysig fod y disgyblion yn gwrandao ar weddill y grŵp ac yn ymateb yn briodol:-

"Rydw i'n cytuno..."

"Rydw i'n anghytuno..."

"Yn debyg i ti..."

"Yn wahanol i ti..."

Gellid cyfeirio at farn eraill hefyd:-

"Mae Mam yn meddwl..."

"Roedd John yn dweud..."

"Dydy Huw ddim yn meddwl..."

"Pan roedd Nain yr un oed â ni..."

Gellid cyfeirio at y gorffennol:-

"Roeddwn i'n arfer meddwl..."

"Yn yr hen ddyddiau, roedd..."

"Doeddwn i ddim yn..."